ATODLEN 1

Diwygiadau o ganlyniad i gychwyn Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

## Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010

**25.**—(1) Mae Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 11 (eithriadau gofal dydd i blant), yn lle "y gofelir amdano" hyd at y diwedd rhodder "sy'n cael gwasanaeth cartref gofal, o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, mewn lle y darperir gwasanaethau o'r fath ynddo yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant ac y mae person wedi ei gofrestru o dan Ran 1 o'r Ddeddf honno mewn cysylltiad ag ef".

(3) Yn erthygl 12—

(a) ym mharagraff (a), yn lle "cartref gofal" rhodder "lle y darperir gwasanaeth cartref gofal ynddo, o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, yn gyfan gwbl neu'n bennaf i bersonau sy'n 18 oed neu drosodd";

(b) ym mharagraff (c), yn lle "canolfan breswyl i deuluoedd" rhodder "lle y darperir gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd ynddo, o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016".

(**1**) O.S. 2010/2839 (Cy. 233), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn